

## **Horizon Nuclear Power Wylfa Limited**

### **WYLFA NEWYDD – GORSAF BŴER NIWCLEAR NEWYDD AR YNYS MÔN**

**HYSBYSIAD O DAN ADRAN 56, DEDDF CYNLLUNIO 2008 A RHEOLIAD 9, RHEOLIADAU CYNLLUNIO SEILWAITH (CEISIADAU: FFURFLENNI A GWEITHDREFNAU RHAGNODEDIG) 2009**

**HYSBYSIAD O DDERBYN CAIS AM ORCHYMYN CYDSYNIAD DATBLYGU AR GYFER GORSAF NIWCLEAR WYLFA NEWYDD AR YNYS MÔN.**

**CYFEIRNOD YR AROLYGIAETH GYNLLUNIO: EN010007**

1. Rhoddir hysbysiad drwy hyn fod yr Ysgrifennydd Gwladol dros Fusnes, Ynni a Strategaeth Ddiwydiannol ('Yr Ysgrifennydd Gwladol') wedi derbyn cais am Orchymyn Cydsyniad Datblygu ('DCO') gan Horizon Nuclear Power Wylfa Limited ('Yr Ymgeisydd') o Sunrise House, 1420 Charlton Court, Gloucester Business Park, Gloucester, GL3 4AE o dan Ddeddf Cynllunio 2008. Cafodd y cais ei gyflwyno i'r Ysgrifennydd Gwladol (drwy'r Arolygiaeth Gynllunio) ddydd Gwener 1 Mehefin 2018 a'i dderbyn i'w archwilio ar 28 Mehefin 2018. Cyfeirnod y cais yw EN010007.

### **Crynodeb o'r prosiect**

2. Mae'r Ymgeisydd yn gwneud cais am DCO er mwyn awdurdodi'r gwaith o adeiladu a gweithredu Wylfa Newydd, gorsaf bŵer niwclear newydd ar Ynys Môn gyda chapasiti o hyd at 3100 megawatt, a datblygiadau cysylltiedig ('Prosiect DCO Wylfa Newydd'). Dyma brif gydrannau Prosiect DCO Wylfa Newydd:
  - a. Yr Orsaf Bŵer, sy'n cynnwys dau Adweithydd Dŵr Berwedig Uwch y DU, y System Dŵr Oeri, cyfleusterau, adeiladau, strwythurau ac offer cefnogol, adeiladau i storio tanwydd sydd wedi cael ei ddefnyddio a gwastraff ymbelydrol a chysylltiad â'r grid cenedlaethol.
  - b. Datblygiadau eraill ar y safle, gan gynnwys gwaith tirweddu a phlannu, draeniau, systemau rheoli dŵr wyneb, gwaith mynediad i'r cyhoedd gan gynnwys cau a dargyfeirio hawliau tramwy cyhoeddus dros dro ac yn barhaol, Ffordd Fynediad newydd i'r Orsaf Bŵer a ffyrdd mewnol y safle, meysydd parcio, gwaith a gweithgareddau adeiladu gan gynnwys compowndiau adeiladu ac ardaloedd parcio dros dro, ardaloedd gosod, ardaloedd gweithio a gwaith a strwythurau dros dro, ardal dros dro i wyllo'r gwaith adeiladu, dargyfeirio cyfleustodau, ffens y ffin a ffensys adeiladu a chysylltiadau trydan.
  - c. Gwaith Morol sy'n cynnwys:
    - Gwaith Morol Parhaol, gan gynnwys y System Dŵr Oeri, y Cyfleuster Dadlwytho Morol, strwythurau morglawdd, gwaith i ddiogelu'r lan, manau gollwng draeniau dŵr wyneb, man gollwng carthffrwd dŵr gwastraff (a draeniau cysylltiedig dŵr wyneb a charthffrwd dŵr gwastraff i'r môr), system achub a dychwelyd pysgod, system atal pysgod, cymhorthion mordwyo a charthu.
    - Gwaith Morol Dros Dro, gan gynnwys argaeau coffr dros dro, ramp mynediad dros dro, cymhorthion mordwyo dros dro, manau gollwng dros dro ac angorfa dros dro i gychod camlas.
  - d. Cyfleusterau Oddi ar Safle'r Orsaf Bŵer: sy'n cynnwys y Ganolfan Rheoli Argyfwng Amgen, y Labordy Arolygon Amgylcheddol a'r Garej Offer Argyfwng Symudol.
  - e. Datblygiadau Cysylltiedig sy'n cynnwys:
    - Campws y Safle ar gyfer llety gweithwyr yn Ardal Datblygu Wylfa Newydd;
    - cyfleuster Parcio a Theithio dros dro yn Dalar Hir ar gyfer gweithwyr adeiladu;
    - Canolfan Logisteg dros dro ym Mharc Cybi;
    - y Newidiadau i Briffordd yr A5025;

- Gwaith creu a gwella cynefinoedd gwlyptir i wneud iawn yn Nhŷ Du, Cors Gwawr a Chae Canol-dydd.
3. Mae'r cais DCO hefyd yn ceisio pwerau amrywiol eraill, gan gynnwys darpariaethau sy'n caniatáu caffael buddiannau a hawliau mewn tir drwy orfodaeth, defnyddio tir dros dro, ymyrryd â hawliau a chau neu ddargyfeirio strydoedd a hawliau tramwy cyhoeddus eraill gan gynnwys cau Ffordd Cemlyn yn barhaol.

#### **Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol**

4. Mae'r datblygiad arfaethedig yn ddatblygiad Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol ('EIA') o dan Reoliadau Cynllunio Seilwaith (Asesu Effeithiau Amgylcheddol) 2009. Felly, daw Datganiad Amgylcheddol ynghlwm wrth y cais, sy'n nodi canfyddiadau'r Asesiad Effaith Amgylcheddol a gynhaliwyd.

#### **Copiâu o ddogfennau'r cais**

5. Bydd copi o'r Ffurflen Gais a'i holl ddogfennau cysylltiedig, gan gynnwys y drafft o'r DCO, y Datganiad Amgylcheddol, cynlluniau a mapiau ('Dogfennau'r Cais') ar gael i'w harchwilio yn rhad ac am ddim yn y lleoliadau canlynol (mae'r amseroedd agor yn amrywio yn unol â'r rhestr):

##### **Canolfan Fusnes Môn**

Cyngor Sir Ynys Môn  
Parc Busnes Bryn Cefni  
Llangefni, Ynys Môn, LL77 7XA  
Dydd Gwener 6 Gorffennaf tan ddydd Llun 13 Awst  
O ddydd Llun i ddydd Gwener 9am - 5pm

A

##### **Swyddfa Safle Wylfa Newydd**

Cemaes  
Ynys Môn, LL67 0AA  
Dydd Gwener 13 Gorffennaf tan ddydd Llun 13 Awst  
9am - 7pm o ddydd Llun i ddydd Gwener a 10am - 4pm ddydd Sadwrn a dydd Sul

6. Hefyd, mae modd gweld dogfennau'r Cais ar-lein ar wefan yr Arolygiaeth Gynllunio:  
**<https://infrastructure.planninginspectorate.gov.uk/cy/projects/gorsaf-bwer-niwclear-wylfa-newydd/>**
7. Mae dogfennau'r Cais ar gael yn rhad ac am ddim ar USB neu DVD drwy wneud cais i'r Ymgeisydd. Mae copiâu caled o'r Cais llawn hefyd ar gael a gellir eu prynu am £8,000. Gellir gwneud cais am gopiâu caled o ddogfennau unigol, ac fe godir tâl amdanynt yn unol â'r cyfraddau hyn:
  - A4 (du a gwyn) – 10 ceiniog y dudalen
  - A4 (lliw) – 20 ceiniog y dudalen
  - A3 (du a gwyn) – 20 ceiniog y dudalen
  - A3 (lliw) – 40 ceiniog y dudalen

8. I wneud cais am USB, DVD neu gopiâu print o ddogfen(nau) y Cais, neu ddogfennau unigol, cysylltwch â'r Ymgeisydd yn ymholiadauwylfa@horizonnuclearpower.com neu drwy ffonio'r Rhadffôn 0800 954 9516.

### **Gwneud sylw ar y Cais**

9. Rhaid cyflwyno unrhyw sylwadau (sy'n rhoi gwybod am unrhyw ddi-ddordeb yn y cais, neu'n ei wrthwynebu) ar Gofrestr yr Arolygiaeth Gynllunio a drwy ddefnyddio'r Ffurflen Sylwadau Berthnasol, sydd ar gael ar y dudalen prosiect ar wefan yr Arolygiaeth Gynllunio:  
**<https://infrastructure.planninginspectorate.gov.uk/cy/projects/gorsaf-bwer-niwclear-wylfa-newydd/>**
10. Os hoffech chi gael copi caled o Gofrestr yr Arolygiaeth Gynllunio a'r Ffurflen Sylwadau Berthnasol, ffoniwch 0303 444 5000.
11. Mae modd cyflwyno sylwadau yn Gymraeg neu'n Saesneg.
12. Dylid dychwelyd ffurflenni wedi'u llenwi at: Yr Arolygiaeth Gynllunio, Y Gyfarwyddiaeth Seilwaith Genedlaethol, Temple Quay House, 2 The Square, Bristol, BS1 6PN. Dylid nodi cyfeirnod yr Arolygiaeth Gynllunio ar gyfer y Cais (EN010007) ym mhob gohebiaeth.
13. Mae *Nodyn Cyngor 8.2: Sut mae cymryd rhan mewn Archwiliad (Rhagfyr 2016)* yr Arolygiaeth Gynllunio yn rhoi canllawiau pellach ar sut mae cofrestru a gwneud sylw perthnasol. Ar gael ar-lein yn: **<https://infrastructure.planninginspectorate.gov.uk/cy/wp-content/uploads/2013/04/Advice-note-8.2-welsh.pdf>**
14. Cofiwch fod rhaid i'r Arolygiaeth Gynllunio dderbyn y sylwadau erbyn 23:59 ddydd Llun 13 Awst 2018. Bydd yr Arolygiaeth Gynllunio yn cyhoeddi'r holl sylwadau.
15. Mae modd cael rhagor o wybodaeth am Brosiect DCO Wylfa Newydd gan Horizon yn:

Cyfeiriad: **FREEPOST Wylfa Newydd**  
E-bost: **ymholiadauwylfa@horizonnuclearpower.com**  
Gwefan: **www.horizonnuclearpower.com/hafan**  
Ffôn: **0800 954 9516**

## **Horizon Nuclear Power Wylfa Limited**

### **WYLFA NEWYDD – A NEW NUCLEAR POWER STATION ON ANGLESEY**

#### **NOTICE UNDER SECTION 56, PLANNING ACT 2008 AND REGULATION 9, INFRASTRUCTURE PLANNING (APPLICATIONS: PRESCRIBED FORMS AND PROCEDURE) REGULATIONS 2009**

#### **NOTICE OF ACCEPTANCE OF AN APPLICATION FOR A DEVELOPMENT CONSENT ORDER FOR THE WYLFA NEWYDD NUCLEAR POWER STATION ON ANGLESEY.**

#### **PLANNING INSPECTORATE REFERENCE: EN010007**

1. Notice is hereby given that the Secretary of State for Business, Energy and Industrial Strategy ('Secretary of State') has accepted an application for a Development Consent Order ('DCO') made by Horizon Nuclear Power Wylfa Limited ('Applicant') of Sunrise House, 1420 Charlton Court, Gloucester Business Park, Gloucester, GL3 4AE under the Planning Act 2008. The application was submitted to the Secretary of State (via the Planning Inspectorate) on Friday 1 June 2018 and accepted for examination on 28 June 2018. The reference number for the application is EN010007.

#### **Summary of the project**

2. The Applicant seeks a DCO to authorise the construction and operation of Wylfa Newydd, a new nuclear power station on Anglesey with a capacity of up to 3100 megawatts, and associated development ('Wylfa Newydd DCO Project'). The principal components of the Wylfa Newydd DCO Project are:
  - a. The Power Station which includes two UK Advanced Boiling Water Reactors, the Cooling Water System, supporting facilities, buildings, plant and structures, radioactive waste and spent fuel storage buildings and a connection to the national grid.
  - b. Other on-site development including landscape works and planting, drainage, surface water management systems, public access works including temporary and permanent closures and diversions of public rights of way, new Power Station Access Road and internal site roads, car parking, construction works and activities including construction compounds and temporary parking areas, laydown areas, working areas and temporary works and structures, temporary construction viewing area, diversion of utilities, perimeter and construction fencing, and electricity connections.
  - c. Marine Works comprising:
    - Permanent Marine Works including the Cooling Water System, the Marine Off-loading Facility, breakwater structures, shore protection works, surface water drainage outfalls, waste water effluent outfall (and associated drainage of surface water and waste water effluent to the sea), fish recovery and return system, fish deterrent system, navigation aids and dredging.
    - Temporary Marine Works including temporary cofferdams, a temporary access ramp, temporary navigation aids, temporary outfalls and a temporary barge berth.
  - d. Off-site Power Station Facilities: comprising the Alternative Emergency Control Centre, Environmental Survey Laboratory and a Mobile Emergency Equipment Garage.
  - e. Associated Development comprising:
    - the Site Campus for worker accommodation within the Wylfa Newydd Development Area;
    - temporary Park and Ride facility at Dalar Hir for construction workers;

- temporary Logistics Centre at Parc Cybi;
  - the A5025 Off-line Highway Improvements;
  - Wetland habitat creation and enhancement works at Tŷ Du, Cors Gwawr and Cae Canol-dydd.
3. The DCO application also seeks various other powers including provisions permitting the compulsory acquisition of interests and rights in land, the temporary use of land, interference with rights and the closure or diversion of streets and other public rights of way including the permanent closure of Cemlyn Road.

### **Environmental Impact Assessment**

4. The proposed development is an Environmental Impact Assessment ('EIA') development under the Infrastructure Planning (Environmental Impact Assessment) Regulations 2009. The application is therefore accompanied by an Environmental Statement ('ES') documenting the findings of the EIA undertaken.

### **Copies of the Application documents**

5. A copy of the Application Form and all its accompanying documents including the draft DCO, ES, plans and maps ('Application documents') are available for inspection, free of charge at the following venues (opening days and times vary as listed):

#### **The Anglesey Business Centre**

Isle of Anglesey County Council  
 Bryn Cefni Business Park  
 Llangefni, Anglesey, LL77 7XA  
 Friday 6 July to Monday 13 August  
 Mon to Fri 9am - 5pm

AND

#### **Wylfa Newydd Site Office**

Cemaes Bay  
 Anglesey, LL67 0AA  
 Friday 13 July to Monday 13 August  
 Monday to Friday 9am - 7pm and Saturday and Sunday 10am - 4pm

6. The Application documents are also available to view online on the Planning Inspectorate's website:  
<https://infrastructure.planninginspectorate.gov.uk/projects/wales/wylfa-newydd-nuclear-power-station/>
7. The Application documents are available free of charge on USB or DVD upon request to the Applicant. Hard copies of the complete Application are also available and may be purchased at the cost price of £8,000. Individual documents can be requested in hard copy and will be charged at the following rates:
- A4 (black and white) – 10 pence per sheet
  - A4 (colour) – 20 pence per sheet
  - A3 (black and white) – 20 pence per sheet
  - A3 (colour) – 40 pence per sheet

8. To request a USB, DVD or printed copies of the Application document(s) or individual documents please contact the Applicant on [wylfaenquiries@horizonnuclearpower.com](mailto:wylfaenquiries@horizonnuclearpower.com) or Freephone 0800 954 9516.

### **Commenting on the Application**

9. Any representations (giving notice of any interest in, or objection to, the Application) must be made on the Planning Inspectorate Registration and Relevant Representation Form, which is available through the project page of the Planning Inspectorate's website at:  
**<https://infrastructure.planninginspectorate.gov.uk/projects/wales/wylfa-newydd-nuclear-power-station/>**
10. If you would like a hard copy of the Planning Inspectorate's Registration and Relevant Representation Form, please telephone 0303 444 5000.
11. Representations can be made in Welsh or English.
12. Completed forms should be returned to: The Planning Inspectorate, National Infrastructure Directive, Temple Quay House, 2 The Square, Bristol, BS1 6PN. The Planning Inspectorate's reference number for the Application (EN010007) should be quoted in any correspondence.
13. The Planning Inspectorate's *Advice Note 8.2: How to register to participate in an Examination (December 2016)* provides further guidance on how to register and make a relevant representation. It is available online at:  
**<https://infrastructure.planninginspectorate.gov.uk/wp-content/uploads/2013/04/Advice-note-8-2v3.pdf>**
14. Please note that representations must be received by the Planning Inspectorate by 23:59 on Monday 13 August 2018. All representations will be made public by the Planning Inspectorate.
15. Further information about the Wylfa Newydd DCO Project may be obtained from Horizon at:

Address: **FREEPOST Wylfa Newydd**  
Email: **[wylfaenquiries@horizonnuclearpower.com](mailto:wylfaenquiries@horizonnuclearpower.com)**  
Website: **[www.horizonnuclearpower.com](http://www.horizonnuclearpower.com)**  
Telephone: **0800 954 9516**